**Pwyllgor Trosolwg a Chraffu CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
Cofnodion o gyfarfod ar-lein y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ddydd Mercher 12 Mai 2021 am 5.00 pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu oedd yn bresennol:**

Y Cynghorydd M Adams (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd W. Lewis | Y Cynghorydd J. Bonetto |
| Y Cynghorydd P. Jarman | Y Cynghorydd H. Boggis |
| Y Cynghorydd J. Brencher | Y Cynghorydd G. Caple |
| Y Cynghorydd M. Griffiths | Y Cynghorydd W. Jones |
| Y Cynghorydd A. Cox | Y Cynghorydd G. Hughes |
| Y Cynghorydd M. Forey | |

**Aelodau Cyfetholedig oedd yn bresennol:-**

Mr J Fish, Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr wedi'i ethol â'r hawl i bleidlais

**Swyddogion oedd yn bresennol:-**

Mr C. Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P.Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyflawniad Gwasanaethau a'u Gwella

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd R Yeo – Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles
Y Cynghorydd G Thomas – Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad
Y Cynghorydd T Williams – Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant

**40 Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. Stephens

**41 Croeso**

Estynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu groeso i'r Aelodau a oedd yn bresennol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu a Chyfarwyddwr Gwasanaeth, Cyflawniad Gwasanaethau a'u Gwella

**42 Cyfleuster Ymchwil Craffu**

Roedd y Cadeirydd wedi atgoffa'r Aelodau bod cyfleuster ymchwil craffu ar gael yn Uned Busnes y Cyngor i gynorthwyo Aelodau â'u cyfrifoldebau craffu a'u

rolau'n Aelodau Etholedig. Dylai'r Aelodau anfon unrhyw geisiadau drwy e-bost.

**43 Datganiad o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**44 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2021 yn rhai cywir.

**45 Dolenni Ymgynghori**

PENDERFYNODD yr Aelodau nodi’r wybodaeth oedd wedi'i darparu trwy'r dolenni ymgynghori mewn perthynas ag ymgynghoriadau agored, ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a'r materion hynny y mae'r awdurdod lleol yn cynnal ymgynghoriadau ynglŷn â nhw.

**46 Swyddfa Archwilio Cymru: Crynodeb Archwilio Blynyddol 2020**

Yn rhan o'i adroddiad, roedd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wedi rhoi amlinelliad o 'Grynodeb Archwilio Blynyddol 2020 Archwilio Cymru’ a gafodd ei gyflwyno i'r Cyngor ar 10 Mawrth 2021 ac i'r Pwyllgor Archwilio ar 26 Ebrill 2021.

Cafodd yr Aelodau gyfle i drafod y cynnydd y mae Gwasanaethau'r Cyngor wedi'i wneud hyd yn hyn o ran cyflwyno cynigion ar gyfer gwella ac argymhellion Archwilio Cymru yn ogystal â thrafod a oes angen cyfeirio unrhyw faterion i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor. Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth hefyd wedi gofyn i'r Aelodau drafod unrhyw faterion y mae angen i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu eu craffu ymhellach a'u cynnwys yn rhan o'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2021/22.

Yn yr adran sy'n mynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol' '(Gwasanaethau VAWDASV), holodd un Aelod a oedd unrhyw dystiolaeth sy'n dangos bod dynion, sydd hefyd yn dioddef cam-drin yn y cartref, yn cael eu trin yn gyfartal. Gofynnodd y Cadeirydd bod yr ymholiad yma'n cael ei drafod yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn sy'n cael ei gynnal ar 17 Mai gan y bydd y Swyddogion perthnasol a Heddlu De Cymru yn bresennol.

Cafodd ei nodi hefyd y dylai'r adran ar dudalen 24 ddweud:
'Mae'n werth ***nodi*** bod yr Adroddiad Archwilio…. '

Cyfeiriodd yr Aelod Cyfetholedig at y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru ar gyfer 2018-20 a holwyd a fyddai unrhyw ymholiadau'n ymwneud â risgiau posibl o ganlyniad i Covid-19 yn cael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Archwilio neu'r Pwyllgor Trosolwg a'r Chraffu?

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Cyflawniad Gwasanaethau a'u Gwella bod adnoddau wedi cael eu dyrannu i fynd i'r afael â pheryglon yn gysylltiedig â Covid-19 yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020-21 megis Grantiau Cymorth Busnes a thaliadau Prydau Ysgol Am Ddim (PYD). Ychwanegodd y bydd yr adroddiadau hyn yn adroddiadau agored ac yn cael eu cyhoeddi ar

wefan y Cyngor cyn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor. Bydd unrhyw gais gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ynghylch cyflawni gwaith craffu mewn perthynas â'r adroddiadau yn cael ei wneud ble'n addas.

Gofynnwyd am ddiweddariad cynnydd mewn perthynas â gwaith datblygu'r gwasanaeth rhanbarthol newydd yn y tymor canolig o ran y Gwasanaethau VAWDASV, a fydd yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch dyblygu gwaith a fyddai'n codi yn sgil y gwahanol ddulliau o fewn yr awdurdod a gyda phartneriaid. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyflawniad Gwasanaethau a'u Gwella wybod y byddai'r adborth yn cael ei rannu â'r Pwyllgor gan ddilyn y model gwasanaeth a'r gwaith sy'n cael ei gyflawni o hyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

O ran ymholiad a gafodd ei godi mewn perthynas ag adran 'Cysgu Allan yng Nghymru - Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb,' rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Lles wybod fod ei Bwyllgor ef wedi cyflawni gwaith craffu mewn perthynas â'r cynnydd y mae'r Gwasanaeth Tai yn ei wneud o ran Strategaeth Digartrefedd CBSRhCT ar gyfer 2018-2022 a'r Cynllun Gweithredu sy'n cefnogi'r Strategaeth honno.

Mewn perthynas ag adran 'Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus', codwyd ymholiad ynghylch y gwendidau a nodwyd ledled Cymru o ran sut mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn cael eu craffu a beth all yr Awdurdod Lleol ei wneud i helpu i wella dulliau craffu'r BGC. Cytunodd y Cadeirydd bod yna diffyg o ran gwaith craffu ac atebolrwydd mewn perthynas â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a bod angen newid i'r ddeddfwriaeth i gefnogi hyn.

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wedi atgoffa'r Aelodau bod Cadeirydd ac aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bresennol. Nododd fod yr Aelod Lleyg wedi herio Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â mesur llwyddiant a chynnydd cynllun llesiant y BGC yn ystod cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod partneriaid/sefydliadau'r trydydd sector wedi cytuno eu bod nhw wedi gweithio'n agos ac wedi ychwanegu gwerth at yr ymateb i'r pandemig. Roedd y BGC wedi cydnabod bod angen dangos sut mae'r Bwrdd yn mesur ei lwyddiant, ac mae hwn yn faes y mae'n bosibl y bydd angen i Lywodraeth Cymru fyfyrio arno yn ystod unrhyw adolygiad o bartneriaeth strategol wrth symud ymlaen.

Cytunodd Cadeirydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu fod gwaith craffu mewn perthynas â'r BGC wedi bod yn heriol yn ystod Blwyddyn 2020/21 ond bod y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi canolbwyntio ar un elfen o gynllun lles y BGC er mwyn sicrhau canlyniadau mwy cadarn.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Cydnabod y cynnydd y mae Gwasanaethau'r Cyngor wedi'i wneud hyd yn hyn o ran rhoi'r cynigion ar gyfer gwella / argymhellion Archwilio Cymru ar waith; a

2. Derbyn gwybodaeth bellach, yn ôl y gofyn, a'i rhannu gyda'r Pwyllgor.

**47 Adroddiad Blynyddol 2020/21 – Trosolwg a Chraffu**

Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ati i gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2020/21 - Trosolwg a Chraffu, sy'n cynnig trosolwg o holl swyddogaethau craffu'r Cyngor. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y bydd yn mynd ati i ymgysylltu â Chadeiryddion y pwyllgorau craffu, os yw'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r adroddiad blynyddol, i gadarnhau cynnwys yr adrannau gwahanol (bydd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles, Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad a'r Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant yn bresennol ar gyfer y cyfarfod er mwyn cyfrannu).

Cyn gofyn am sylwadau ac adborth gan yr Aelodau, awgrymodd y Cadeirydd fod y wybodaeth yn Atodiad 1 yn cael ei nodi ym mhob adran unigol o'r adroddiad blynyddol er mwyn sicrhau cysondeb.

Gofynnodd Aelodau eraill (gan gynnwys yr Aelod Cyfetholedig) bod y newidiadau canlynol yn cael eu gwneud:

1. Cynnwys yr Achos Galw i Mewn
2. Cywiro'r gwallau ar dudalen 46
3. Cyfeirio at y Strategaeth Cyflogaeth a Sgiliau (Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad) er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu cylch gorchwyl 'Economi'
4. Ychwanegu troednodyn i gydnabod y bydd gweithgor craffu - Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei sefydlu yn ystod y flwyddyn nesaf.

Sylwadau eraill:

- Wrth ymateb i ymholiad ynghylch y llifogydd a chategori tomenni - cadarnhawyd y bydd cyfle i gyflawni gwaith cyn y cam craffu mewn perthynas ag Adroddiad Adran 19 cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet ym mis Mehefin 2021. Mae'r dyddiad yn adlewyrchu'r amser sydd ei angen i gasglu swm mawr o dystiolaeth, gwybodaeth dechnegol, sylwadau gan bartneriaid allweddol, cyfweliadau gan drigolion a gwybodaeth ategol;
- Adroddiad Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu 2020/21 - Bydd yr adroddiad yma'n adroddiad ar wahân sy'n cael ei gyflwyno yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mis Mehefin/Gorffennaf 2021.
- Roedd Cadeirydd y Pwyllgorau Craffu wedi trafod fformat/themâu'r adroddiad Blynyddol yn ystod ei gyfarfod ym mis Chwefror 2021;
- Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, mae Gwasanaeth Gofal Preswyl i Bobl Hŷn y Cyngor, yn cynnig datblygiad cyffrous a chadarnhaol ar gyfer pobl hŷn, mae'n adroddiad gwych.

Roedd yr Aelodau wedi cydnabod bod fformat syml yr adroddiad craffu blynyddol yn adlewyrchu dylanwad Covid-19, ond yn dyst i'r gwaith y mae'r Pwyllgorau Craffu wedi'i gyflawni yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020/21. Cytunodd yr Aelodau nad oedd modd gorffwys ar ein rhwyfau a bod gwaith da wedi'i gyflawni gan bob un o'r Pwyllgorau Craffu a'u bod nhw wedi derbyn cymorth effeithiol gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu a'r Swyddogion perthnasol.

**PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2020/21, fel y'i diwygiwyd, a fydd yn cael ei gyflwyno yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ar 26 Mai 2021; a

2. Rhoi caniatâd i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ymgynghori â'r Cadeiryddion mewn perthynas â'r pwyllgorau craffu thematig nad oedden nhw'n bresennol, i gadarnhau cynnwys eu Hadroddiadau Blynyddol unigol.

**48 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

Roedd y Cadeirydd wedi diolch i Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am fynychu'r cyfarfod ac am eu cyfraniad gwerthfawr. Roedd y Cadeirydd wedi diolch iddyn nhw am eu gwaith caled ac am gefnogi'i gilydd drwy gydol y Flwyddyn.
Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau am gyfarfod y Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn a fydd yn cael ei gynnal ar yr 17 Mai 2021 am 5pm.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.05pm**

**Y CYNG M. ADAMS**
**CADEIRYDD.**